## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Body Art Design



**Yn gryno**I’r bobl hynny a chanddynt elfen greadigol, mae’r cwrs hwn yn gyfle delfrydol i ddarganfod sut i gynllunio a chymhwyso celf y corff, gan ddefnyddio amrywiaeth o beintiau’r corff, gliterau, secwinau ac addurniadau eraill.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer……**rywun a chanddo ddiddordeb mewn colur creadigol ac addurno’r corff.

**Cynnwys y cwrs**

Gyda’r Dyfarniad YEHG Lefel 2 mewn Celf y Corff, byddwch yn dysgu am y broses greadigol, gan gynnwys sut i ddatblygu a chyflwyno bwrdd hwyliau, a defnyddio technegau fel cywiro lliw, asio, uwcholeuo, graddliwio, cerflunio, cuddio a chuddliw.

Hefyd, mae’r cwrs yn rhoi sylw i’r cynnyrch a’r offer a ddefnyddir i greu delwedd 2D ar arwynebedd 3D a phynciau eraill fel ymgynghori, arferion diogel a hylan a chyngor ôl-ofal. Wedi i chi gwblhau’r cwrs yn llwyddiannus, gallech symud ymlaen at Ddyfarniad YEHG Lefel 3

mewn Colur y Cyfryngau neu Ddyfarniad Lefel 3 mewn Cuddliw  Cosmetig.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes angen cymwysterau ffurfiol ond bydd angen i chi fod â diddordeb mewn gweithgareddau artistig a chreadigol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Disgwylir i chi brynu iwnifform a chyfarpar yn amod o'ch lle ar y cwrs.